CPS

Polisi ar gyfer Erlyn Achosion o Droseddau Casineb a Ysgogir gan Hil neu Grefydd

Polisi ar gyfer Erlyn Achosion o Droseddau Casineb a Ysgogir gan Hil neu Grefydd

Beth yw ystyr trosedd a waethygir gan hil neu grefydd?

Wrth erlyn achosion o droseddau casineb a waethygir gan hil neu grefydd, ac i'n helpu i weithredu'n polisi ar ddelio ag achosion o'r fath, rydym yn dilyn y diffiniad canlynol:

"Unrhyw drosedd y canfyddir iddi gael ei hysgogi gan elyniaeth tuag at hil neu grefydd unigolyn neu hil neu grefydd canfyddedig, gan y dioddefydd neu unrhyw un arall."

Mae diogelwch pobl ac eiddo a'r hawl i fyw'n rhydd o ofn ac aflonyddwch yn hawliau dynol sylfaenol. Ein polisi yw erlyn troseddau casineb hil a chrefydd yn deg, yn gadarn ac yn rymus.

Nid oes un trosedd unigol o drosedd hiliol neu drosedd crefyddol.

- Mae nifer o droseddau penodol ble, os ydym i allu profi elfen o waethygiad hiliol neu grefyddol, mae'r un a gyhuddir yn debygol o dderbyn dedfryd uwch os y'u ceir yn euog;

- Ar wahân i'r troseddau hyn, mae gan y llysoedd troseddol ddyletswydd gyffredinol i drin unrhyw drosedd fel un fwy difrifol os oes tystiolaeth fod yr un a gyhuddir wedi arddangos neu wedi ei ysgogi gan elyniaeth hiliol neu grefyddol;

- Mae yna hefyd nifer o wahanol droseddau yn ymwneud ag ysgogi casineb hiliol neu grefyddol.

Beth mae'r CPS yn ei wneud?

Y CPS yw'r prif wasanaeth erlyn ar gyfer Cymru a Lloegr, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Er ein bod yn gweithio'n agos â'r heddlu, rydym yn annibynnol arnynt. Mae'r heddlu'n gyfrifol am ymchwilio troseddau a chasglu'r dystiolaeth. Mae gennym gyfrifoldeb dros benderfynu (ym mhob achos heblaw'r rhai lleiaf) a ddylid cyhuddo'r sawl a ddrwgdybir o drosedd ac, os felly, gyda pha gyhuddiad neu gyhuddiadau.

Sut mae'r CPS yn penderfynu p'un a ddylid cyhuddo rhywun?

Rydym yn gweithredu'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron. Er mwyn sicrhau erlyniad, rhaid bod digon o dystiolaeth i allu sicrhau rhagolwg realistig o euogfarn. Os nad yw'r achos yn pasio'r cam tystiolaethol hwn, ni ddylai fynd yn ei flaen, waeth pa mor sensitif neu ddifrifol ydyw.

Os nad yw'r achos yn pasio'r cam tystiolaethol, yna rhaid i ni benderfynu a oes angen erlyniad er lles y cyhoedd (y cam lles y cyhoedd). Rydym

yn ystyried unrhyw drosedd sydd wedi ei hysgogi gan elyniaeth tuag at y dioddefydd oherwydd canfyddiad o darddiad hiliol neu gredoau crefyddol y dioddefydd, neu ble'r arddangoswyd gelyniaeth o'r fath, fel rhai mwy difrifol. O ganlyniad, bydd fel arfer er lles y cyhoedd i erlyn mewn achosion o droseddau casineb hiliol neu grefyddol.

Beth os nad ydw i eisiau mynd i'r llys?

Mae'ch barn chi fel dioddefydd y drosedd yn bwysig wrth benderfynu p'un a ddylai achos fynd yn ei flaen neu beidio, ond nid dyma'r unig ffactor. Rydym yn erlyn achosion ar ran y cyhoedd yn gyffredinol ac nid yn unig er budd unrhyw unigolyn penodol.

Os bydd dioddefydd wedi tynnu cefnogaeth dros erlyn yn ôl, yna mae'n ddyletswydd arnom i ganfod pam. Byddwn yn edrych yn fanwl ar bob opsiwn ac yn cynnig pa bynnag gymorth y gallwn trwy'n Hunedau Gofal Tystion cyn penderfynu erlyn neu beidio. Yn gyffredinol, po fwyaf difrifol yw'r achos, y mwyaf y bydd er lles y cyhoedd i fynd ymlaen ag erlyniad, hyd yn oed os dywed y dioddefydd nad ydynt am i ni wneud.

Beth yw gwaith Unedau Gofal Dioddefwyr?

Mae gennym Unedau Gofal Tystion ym mhob Maes CPS, yn cael eu rhedeg ar y cyd gan yr heddlu a'r CPS. Mae Swyddogion Gofal Tystion yn bwynt cyswllt a chefnogaeth bersonol ar gyfer pob tyst i'w helpu i roi'r dystiolaeth gorau posibl. Os ydych yn ddioddefydd trosedd bydd Swyddog Gofal Tyst yn rheoli'ch gofal o'r cyhuddiad hyd at ddiwedd yr achos.

Pa gefnogaeth fyddaf yn derbyn yn y llys?

Pan fyddwch yn mynychu'r llys fel tyst, bydd erlynydd y CPS sy'n cyflwyno'r achos yn ei gyflwyno ei hun ac yn ateb unrhyw gwestiynau cyffredinol sydd gennych. Os bydd raid i chi aros, byddwn yn sicrhau eich bod yn cael gwybod pam fod oedi a faint o amser a amcangyfrifir y bydd raid i chi aros i roi tystiolaeth. Ble bynnag fo'n bosibl, byddwn yn ceisio sicrhau fod cyfleusterau aros ar wahân ar gael ar gyfer tystion yr erlyniad fel nad oes raid i chi gymysgu gyda'r diffynnydd neu deulu neu ffrindiau'r diffynnydd.

Mae'r cyhoeddiadau canlynol yn rhoi rhagor o wybodaeth ar sut mae'r erlyniad yn gwneud penderfyniadau a beth all dioddefwyr a thystion ddisgwyl o'r system gyfiawnder troseddol –

- Troseddau Hiliol a Chrefyddol – Polisi Erlyn y CPS
- Y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron
- Y Penderfyniad i Erlyn – taflen
- Adduned yr Erlynwyr
- Y Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Trosedd (Cod y Dioddefydd)

Mae'r cyhoeddiadau hyn yn ddogfennau cyhoeddus ac maent ar gael ar wefan y CPS: *www.cps.gov.uk*

Neu gellir gofyn am gopïau gan:
CPS Communications Branch, 50 Ludgate Hill, London EC4M 7EX
Ffôn: 020 7796 8442
Ffacs: 020 77968351
E-bost: publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Mae cyfieithiadau i ieithoedd eraill, a chopïau ar dâp sain ar gael.

Gellir gofyn am gymorth neu gyngor gan:

SEFYDLIADAU CYFFREDINOL

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
www.equalityhumanrights.com

Prif Switsfwrdd 0845 604 6610
Llinell Destun 0845 604 6620

Cymru – Caerdydd
Prif Switsfwrdd 0292 0663710
Llinell gymorth a chyngor 0845 604 8810
Llinell destun a dwyieithog 0845 604 8820

The Monitoring Group
www.monitoring-group.co.uk
020 7636 6000
Rhif Rhadffôn Argyfwng: 0800 374 618
28 Museum Street
London WC1A 1LH

Yn darparu cefnogaeth gyfreithiol, foesegol ac ymarferol i bobl sy'n dioddef o aflonyddu hiliol.

Cymorth i Ddioddefwyr
www.victimsupport.org.uk

Cymorth i Ddioddefwyr yw'r elusen genedlaethol ar gyfer pobl wedi eu heffeithio gan drosedd. Mae'n gwirfoddolwyr yn darparu cymorth rhad ac am ddim a chyfrinachol i helpu pobl i ddelio â'u profiad, p'un a ydynt yn adrodd am drosedd neu beidio. Mae Cymorth i Ddioddefwyr hefyd yn rhedeg y Gwasanaeth Tystion a Llinell Gefnogaeth. Mae'r Gwasanaeth Tystion yn helpu tystion, dioddefwyr a'u teuluoedd cyn, yn ystod ac yn dilyn achos. Mae gwirfoddolwyr hyfforddedig yn darparu cefnogaeth emosiynol a gwybodaeth ymarferol am weithdrefnau'r llysoedd, ymweliad â'r llys, a lle tawel i aros cyn ac yn ystod y gwrandawiad.

Gall y llinell gefnogaeth ddarparu cymorth ymarferol a chefnogaeth emosiynol yn gyfrinachol a dienw. 0845 30 30 900.

SEFYDLIADAU SEILIEDIG AR FFYDD

Community Security Trust
www.thecst.org.uk/incidents

Yn cofnodi ac ymchwilio i ddigwyddiadau yn erbyn aelodau o'r gymuned Iddewig. Yn cyfeirio tuag at wasanaethau cwnsela Iddewig lle bo'n briodol, a gyda chaniatâd y dioddefydd.

Adran Ddigwyddiadau 020 8457 9964 a
020 84579999

Forum Against Islamophobia and Racism (FAIR)
www.fairuk.org

Mae FAIR yn elusen annibynnol a sefydlwyd i godi ymwybyddiaeth o Islamoffobia ac i drechu rhagfarn ac arferion cysylltiedig.

I adrodd am achos o wahaniaethau Islamoffobaidd, cysylltwch â
Fair ar: 020 8940 0100
fair@fairuk.org

SEFYDLIADAU AR GYFER CEISWYR LLOCHES A FFOADURIAID

Y Cyd-gyngor er Lles Mewnfudwyr (JCWI)
www.jcwi.org.uk
020 7251 8708

Mae JCWI yn sefydliad gwirfoddol annibynnol a chenedlaethol sy'n gweithio i sicrhau cyfiawnder a threchu hiliaeth mewn cyfraith a pholisi

mewnfudo, cenedligrwydd a lloches. Mae JCWI yn darparu cyngor a gwaith achos am ddim, cyrsiau hyfforddiant a chyhoeddiadau.

Cyngor y Ffoaduriaid
www.refugeecouncil.org.uk
info@refugeecouncil.org.uk

Mae Cyngor y Ffoaduriaid yn gweithio ledled y Deyrnas Unedig gyda cheiswyr lloches a ffoaduriaid.

Mae eu gwasanaeth llinell gynghori un alwad yn cynnig cyngor a gwybodaeth i unigolion a sefydliadau ar amrywiaeth o faterion gyda chynghorwyr gyda phrofiad o faterion lloches a mewnfudo yn ateb y ffonau.

Gellir cael rhagor o gopïau o'r daflen hon gan:

CPS Communication Division
Rose Court
2 Southwark Bridge
Llundain SE1 9HS

Ffôn 020 335 70913
E-bost publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Argraffwyd gan Blackburns of Bolton
Ffôn 01204 532121

Cyhoeddwyd Hydref 2009